❖ Emyn Nadolig

Hwn yw'r dydd i gofio'r geni,
Geni gwyrthiol Crist Mab Duw
Draw ym Methlem o Fair Forwyn
Er mwyn achub dynol-ryw.
Rhown yn awr, deulu'r llawr
Groeso i'n Gwaredwr mawr.

Dydd i wrando'r pêr newyddion
Daenwyd gan angylaidd gôr,
Dydd i ddilyn golau'r seren
Ato Ef dros dir a môr.
Rhown yn awr, deulu'r llawr
Groeso i'n Gwaredwr mawr.

Dydd i uno mewn gorfoledd
Â'r Bugeiliaid wrth Ei grud,
Dydd offrymu gyda'r Doethion
I Fab Mair ein rhoddion drud.
Rhown yn awr, deulu'r llawr
Groeso i'n Gwaredwr mawr.

Dydd a rydd in gyfle newydd
I gartrefu Gair y nef,
Dydd i brofi holl ogoniant
Ei raslonrwydd dwyfol Ef.
Rhown yn awr, deulu'r llawr
Groeso i'n Gwaredwr mawr.

S. Idris Evans